YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1895. [RHIF 86.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. T. J. GRIFFITHS.

PAN geisiwyd genyf ysgrifenu ychydig o hanes y diweddar Barch. Thomas J. Griffiths (Tan Gimel), teimlwn dipyn yn annghymhwys i ymgymmeryd â'r gorchwyl, a buasai yn well genyf pe disgynasai y gwaith ar rywun arall; ond, gan fy mod mor adnabyddus ag ef, ac wedi cael y mwynhad, am hir flynyddau, o fod dan ei weinidogaeth, teimlaf yn ddyledswydd arnaf i fynegi yr hyn a wn am dano, ac ymdrechu cadw ei enw rhag myned i dir annghof.

Ganwyd ef yn Llechryd, ger Aberteifi, tua'r flwyddyn 1798. Mab ydoedd i'r Parch. G. Griffiths, a Fanny, ei wraig. Bu ei dad yn weinidog Henadurol parchus iawn yn Llechryd am 30 mlynedd, a bu farw Ionawr 31, 1818, yn 57 mlwydd oed, ac a gladdwyd yn Llandygwydd. Gan i'r mab gael ei fendithio â rhieni duwiol, diau iddo gael ei ddwyn i fyny "yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd."

Wedi derbyn addysg mewn ysgol gymmydogaethol, aeth i ysgol yr hyglod Ddafis, o Gastell-Hywel, ac oddiyno i Athrofa Henadurol Caerfyrddin, lle y treuliodd y cwrs arferol; ac ymsefydlodd, yn bur fuan, fel gweinidog yn y Cribyn a Chiliau Aeron. Nis gwn, yn gywir, pa amser y cymmerodd hyn le; ond ymddengys ei fod yno yn y flwyddyn 1825, fel y profa y dyfyniad canlynol a ymddangosodd yn *Seren Gomer* am fis Gorphenaf yn y flwyddyn honno:—"Priodwyd, Mai 22, yn Eglwys Plwyf Llanegwad, Swydd Gaerfyrddin, gan y Parch. Herbert Williams, Periglor Llanarthney, Mr. Thomas Griffiths, o Gribin, Swydd Geredigion, â Miss Anne Jeremi, o'r Cribynau, yn Mhlwyf Llanegwad." Ganwyd iddynt chwech o blant, ac y mae rhai o honynt yn fyw yn awr, ac mewn sefyllfaoedd uchel a pharchus yn yr Amerig, Bu yn trigianu mewn amryw leoedd, megys Ciliau, Cribyn, Llanbedr,

ac, am dymhor, ger Alltyplacca; ond fel "Griffiths y Cribyn" yr adwaenid ef dros y wlad. Wedi bod yn gweinidogaethu yma am hir flynyddau, a chan dybied ei fod yn gweled "man gwyn fan draw," ymfudodd ef a'i deulu i'r Amerig yn y flwyddyn 1840 neu 1841, lle y bu yn pregethu a theithio llawer; ond daeth yn ol tua'r flwyddyn 1845, gan fwriadu hwylio drosodd drachefn i fynwes ei deulu, yr hyn nis gwnaeth byth. O'm blaen y mae copi o annerchiad barddonol a anfonwyd iddo yn Ebrill, 1844, gan y Parch. Thomas Emlyn Thomas (Taliesin, Craigyfelin), yr hwn fu yn weinidog ffyddlawn yn y Cribyn a Chiliau hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le Ebrill, 1846, ac nid yn 1847, fel y dywed rhai ysgrifenwyr. Bu Mr. Griffiths, ar ol dychwelyd i'r "Hen Wlad," am ryw bum' mlynedd yn llafurio yn Nghaeronen, ac eglwysi ereill; ond wedi i'r diweddar Barch. Peter Joseph roddi gofal y Cribyn a Chiliau i fyny yn 1845, cafodd alwad i ddyfod yn ol i'r Cribyn, ac yno y llafuriodd hyd o fewn i ddwy neu dair blynedd i'w farwolaeth.

Crwydrodd lawer o'r naill fan i'r llall, ond yr oedd yn dderbyniol gan bawb, i ba dy bynag yr elai. Yr oedd o yspryd dystaw, heddychol, a diniwed, ac nid wyf yn meddwl i'r haul erioed fachlud ar ei ddigofaint. Er nad oedd rydd oddiwrth ddiffygion, mwy nag ereill, etto, perthynai iddo lawer o ragoriaethau ag y mae llawer yn ddigon prin o honynt. Treuliodd lawer o'i amser yn nghymdeithas yr hyglod Daniel Ddu, a'r diniwed Reuben Brydydd y Coed, a chu iawn fuont i'w gilydd, a'u coffadwriaeth a bery yn fendigedig.

Pan yn gymharol ieuanc, bu yn cadw ysgol mewn gwahanol fanau; ond er ei fod yn hoff neillduol o blant, ymddengys nad oedd y gwaith yn dygymod yn dda â'i anianawd; canys *rhyddid*, ac nid *caethiwed*, oedd ei arwyddair ef. Yr oedd llawer iawn o ysmaldod yn perthyn iddo, a medrai chwareu mân gastiau diniwed gystal a neb. Un tro, pan oedd yn byw yn Llanbedr, gosododd i fyny ar fôn coeden bapyryn ag arno yr ysgrifen a ganlyn: "*Foras sesto rubon*;" a thranoeth, mawr yr ymdyru oedd i'r fan—pawb yn ei ddarllen, ond neb yn ei ddeall! Dim un Daniel, yn y dref golegol hon, i'w deongli! O'r diwedd galwyd arno *ef* i'w gweled, ac wedi syllu arni am ychydig, "Twt," meddai, "mae yn ddigon eglur; ond gwnaeth yr hwn a'i hysgrifenodd dipyn o gamgymmeriad, trwy roi *diwedd* un gair ar *ddechreu* un arall. Fel hyn y dylai fod: "*For asses to rub on*!" Mawr y dyfyrwch a gafwyd, a mwy fyth pan ddeallwyd pwy a gynlluniodd y peth.

Fel pregethwr, yr oedd yn feddiannol ar ryw attyniad rhyfeddol. Yr oedd yn Undodwr cadarn. Os nad oedd yn fwy o dduwinydd, nac yn fwy hyawdl nag amryw o rai ereill, etto, rhaid dweyd ei fod yn medru gosod allan wirioneddau gwerthfawr yr Efengyl gyda rhyw swyn a nerth annghymharol. Gan gymmaint ei sobrwydd a'i ddifrifoldeb, yn enwedig ar rai adegau, nid rhwydd y gallai y mwyaf anystyriol hepian dan ei weinidogaeth. Yr oedd ynddo y fath deimlad, fel mai gwaith hawdd iddo oedd gogleisio teimladau ei wrandawyr. Amlygai ddawn arbenig mewn gweddi, ac yr oedd ei eiriau, lawer pryd, yn ddigon i "yru y galon graig i wylo." Yr oedd braidd yn

ddiail mewn angladd, ac yr oedd yn hynod o ffodus yn y dewisiad o destynau cyfaddas. Clywais y diweddar Mr. John Jenkins, o Rydybanau, yn dweyd mai un o'r pregethau mwyaf toddedig ac effeithiol a glywodd erioed oedd yr un a draddododd Mr. G. yn angladd y bardd ieuanc gobeithiol hwnw, a'i gyfaill mynwesol yntau, Reuben Davies, Prydydd y Coed, oddiwrth Barnwyr v. 15—"Am neillduaeth Reuben yr oedd mawr ofal calon." Gallai bregethu braidd ar bob testyn, a hyny yn fyrfyfyr. Anaml yr ysgrifenai un bregeth. Ceisiodd unwaith ysgrifenu darlith; ond wrth edrych weithiau ar y papyr, a cheisio cofio rhanau o honi, digon trwstan fu ei thraddodiad, ac ni chlywais iddo gynnyg gwneyd y fath beth byth drachefn.

Yr oedd hefyd yn llenor gwych. Ysgrifenodd lawer i *Leuad yr Oes*, *Seren Gomer*, a'r *Ymofynydd*. Yn y *Seren*, ysgrifenodd erthyglau ar "Benboethni Crefyddol," "Cacoethes Scribendi," a phynciau ereill, ac yr oedd ei ysgrifau bob amser yn ddyfyr, adeiladol, ac hynod o ddarllenadwy. Yn 1828, cyhoeddodd Gofiant am yr enwog Ddafis, Castell Hywel, yr hwn sydd yn ddiarebol o lithrig a melus. Cyhoeddodd hefyd, o Swyddfa Mr. Jenkins, Aberystwyth, fisolyn ceiniog a dimai. Nid wyf yn cofio ei enw, er iddo unwaith fod yn fy meddiant; ond credaf na ddaeth allan ragor na dau rifyn. "Dyrnodiai â dwrn Eidiol" lawer o syniadau ffol a chyfeiliornus, ac anhawdd fyddai peidio eu darllen drosodd ar ol dechreu. Er fod ei ysgrifau weithiau yn finiog a thraws, a'i olwg hefyd dipyn yn swrth, etto, yr oedd *y dyn oddifewn* "a'i fron yn galon i gyd." Dywedai ei feddwl yn hyf a gonest, ac ni theimlai yswildod yn y pwlpud, na thrwy y wasg, i godi ei lef, a hono yn llef nerthol yn erbyn pob twyll a rhagrith.

Yr oedd hefyd yn brydydd lled dda. Yn y flwyddyn 1830, ac efe yn Nghiliau Aeron, cyhoeddodd gasgliad o emynau melus a swynol. Mae y llyfryn yn 72 tudalen, ac yn cynnwys 65 o emynau,* 29 o'i waith ef ei hun. Mae y ddau bennill canlynol, a gymmerwyd o'r emyn cyntaf, yn brawf o rwyddineb ei awen :—

"Edrychwn fry i'r nefoedd faith,
Mae yno'n llanw'r ser;
Edrychwn dros y ddaear laith,
Cawn eglur ganfod Ner."

"Mae'n oll yn oll, mae'n llon'd y llawr,
Ac nid oes le nad yw;
Pob llwchyn bach, pob mynydd mawr,
Gyhoedda maes fod Duw."

Dwys a difrifol iawn yw Emyn 57, yr hwn sydd yn dechreu fe hyn :—

"Un flwyddyn fad i derfyn ddaeth,
Ac i'r dragwyddawl foddfa aeth,
Ac ni ddaw byth yn ol!

* Dylai rhif yr emyn olaf fod yn 65, ac nid 64, fel ag y mae yn y llyfr, gan fod yr olaf ond un yn 64.

Rho glust, fy enaid, rho yn ddwys,
Aeth hon cyn terfyn dan y gwys,
A channoedd yn ei chol."

Ymddangosodd yr emyn uchod yn yr *Ymofynydd* am Ionawr, 1885, ac hefyd yn *Lleuad yr Oes* am Ionawr, 1829. Cyfansoddodd hefyd ddwy farwnad odidog, y naill i'r "Hen Ddafis," o Gastell Hywel, yr hon a welir yn yr ail argraffiad o *Delyn Dewi*, a'r llall i John Jones, Tydwgi, Llanwnen, a dichon iddo gyfansoddi ychwaneg. Nid yw yn debyg iddo dalu llawer o warogaeth i'r awen, na gadael dim ar ei ol mewn llawysgrif, er cof a chadw; ond wele un pennill a godwyd er ys blynyddau bellach oddiar gor yn Eglwys Dihewyd, a'i enw wrtho, ac yn ei lawysgrif ef ei hun :—

"Daw dydd pan na fydd corlan
Ond un trwy'r byd yn bod,
A Christ yn Ben ei Hunan,
Nid Pab, nid teyrn dinod;
Un Bugail Mawr, un Eglwys,
Un Duw, a Thad pawb oll;
Un ffordd, un ffydd tra chymhwys,
I'n harwain yn ddigoll."

Ni chawsom brawf erioed iddo geisio ymlwybro yn hualau Dafydd ap Edmwnd; na, na, nid efe oedd y dyn ymboenai i geisio llunio englyn, a methu, o bossibl, ar ol gwneyd tair llinell a hanner, i gael gair cymhwys o ran odl a chynghanedd, i'w orphen; o ganlyniad, nis gallai ddweyd fel y bardd hwnw gynt :—

"Mi dreuliais lawer awr
O'm hoes yn lled ddidoraeth,
Ar ol y dwli mawr
Sy'n nglyn â chaeth-farddoniaeth."

Bendithiwyd ef â chorff cadarn, ac â doniau godidog, ac â'r doniau hyny bu am hir flynyddau yn llawenhau teulu Seion; ond goddiweddwyd ef gan afiechyd, a gwisgodd arwyddion henaint braidd yn gyn-amserol. Yn ei gystudd, cafodd bob tynerwch ac amgeledd yn nhy ei hen gyfaill, y Parch. David Evans, B.A., Maesymeillion; ac yno, ar y 19eg o Ionawr, 1871, yr ehedodd ei yspryd at yr Hwn a'i rhoes, yn 73 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Alltyplacca, a thrwy haelioni ei hen gyfeillion, codwyd cofadail ddestlus iddo, ar yr hon y mae yr englyn canlynol :—

Heddgarwr oedd y gwron,—a didwyll
Nodedig ei galon;
Ganwyd ef yn genad Ion,
A'i ddawn oedd wledd i ddynion.

Heddwch i'w lwch hyd ddydd y codi. DEWI HEFIN.

CYMMERIAD.

(AIL OREU ALLAN O WYTH.)

ARUCHEL gymmeriad y Cristion deilynga gerdd swynol y bardd,
Ac iddo y canaf o'm calon tra'n ymdaith dros lechwedd yr ardd;
Haelfrydig dduwioldeb adwaena, sancteiddrwydd sy'n fyw ar ei wedd,
A thros y gwirionedd fe drenga, heb ofni llwch oeraidd y bedd.

Fel mêl ar ei dafod i'w crefydd, un doeth, gostyngedig, mi wn,
Dewr forio ar fôr o lawenydd nefolaidd yn gysson wna hwn;
Mae'n rhodio dros lwybrau gonestrwydd, gan wneuthur yn iawn â phob dyn,
Annoga gymdeithas i sobrwydd,—rhyw fawredd o'r nef yw'r fath un.

Mae'n adwaen y bach yn ei loches, yn gystal â'r mawr yn ei blâs,
Anfona daer weddi o'i fynwes at Dduw, am ei nerthu mewn gras;
Mae ganddo lân galon rinweddol, a wna gydymdeimlo i'r byw,
Ac O! mae ei ffydd fel craig oesol, yn uchel fodolaeth ei Dduw.

O! dyma gymmeriad ardderchog, gwir natur y Duwdod mewn dyn,
Yr hwn a wna garu cymmydog yn gywir fel caru ei hun;
Gwyn fyd y sawl feddo gymmeriad y Cristion tu yma i'r bedd,
A thu draw caiff helaeth fynediad i wlad fawr dragwyddol yr hedd.

Trebanos. BEN DAVIES.

Y FENYW MEWN GWLEIDIADAETH.

(Papyr a ddarllenwyd gerbron Cymdeithas Menywod Rhyddfrydol Aberdar).

Y MAE y cyfarfod presennol yn bedwerydd o gyfres o gyfarfodydd a drefnwyd i gymmeryd lle yn ystod y Gauaf yn y gwahanol gylchoedd cymmydogaethol, gan bwyllgor Cymdeithas Menywod Rhyddfrydol Aberdar, gyda'r amcan o ledaenu gwybodaeth am fodolaeth, natur, pwrpas, a'r angen am y mudiad hwn ar ran y menywod. Nis gallwn lai nâ theimlo yn ddiolchgar am y gymmeradwyaeth a'r gefnogaeth wresog a nerthol y mae'r cyfarfodydd wedi gael ar ran amryw o weinidogion yr ardal. Yr wyf yn cofnodi yr amgylchiad hwn am y ffaith o'i fod yn beth anarferol yn ein profiad ni, fel cymdeithas, hyd yn hyn i gael presennoldeb a chefnogaeth y gweinidogion, gydag ychydig iawn o eithriadau. Beth yw y rheswm, mae'n anhawdd esponio.

Un rheswm, efallai, yw, mai mudiad ar ran y rhyw fenywaidd ydyw, er mwyn ymdrin â phynciau yn dal perthynas yn arbenigol â menywod, a thybiant, o bossibl, mai *infra dig* neu iselhad ar eu cymmeriad fyddai ymuno a chydsynio â mudiad o'r cyfeiriad hwnw.

Rheswm arall, efallai, yw, mai mudiad dan ddylanwad ac arweiniad y menywod ydyw. Tybiant fod y cyfarfodydd yn neilldnol gyfyngedig i'r cyfryw—nad oes angen am na groesaw i'r gwrrywod fod yn bresennol a chymmeryd rhan yn y gwaith. Yn enw y pwyllgor, yr wyf am ddatgan i'r boneddigion hyny, yn llen a lleyg, sydd oddiar gychwyniad y mudiad wedi ein cynnorthwyo, ein diolchgarwch yn y modd mwyaf gwresog, pendant, a chroew, fel na all fod un camddealldwriaeth mwyach ar y mater. Heb gymmeradwyaeth, heb gydsyniad, heb gydweithrediad, heb help ein brodyr, ni allwn ni, y menywod, ddim o honom ein hunain.

Efallai etto nad yw'r gweinidogion yn cymmeradwyo fod menyw yn ymestyn yn mlaen i gylch mwy eang, mwy cysson â'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mwy cysson â'i natur fel creadur rhesymol, mwy cysson â sefyllfa a goleuni gwell y rhyw wrrywaidd ar yr adeg bresennol, a gotynion a sefyllfa pethau mewn cymdeithas yn awr, nag y mae deddfau neu draddodiadau cyfeiliornus, rhwystrol, a niweidiol, wedi ganiatau iddi yn y gorphenol. Yr ydym wedi cael enghreifftiau cyn hyn o arweinwyr y bobl â llen ar eu llygaid yn methu darllen arwyddion yr amserau. Rhaid i fenyw, fel pob peth arall, symmud yn mlaen gyda blaenfynediant yr oes.

Mae'r farn yn gywir mai cartref yw lle menyw, ond gwir hannerog yw mai gofalon cartref yw ei phrif a'i hunig alwad a'i dyledswydd. Yr wyf yn caniatau yr oll y mae y gair "prif" yn ei olygu, ond nid y gair "unig," a chymmeryd yn ganiataol fod pob menyw yn meddu cartref a theulu yn ymddybynu ar ei gwasanaeth. Ni ddylai fod un man mor gyssegredig i fenyw â chartref. Gweinyddu at gysur a hawddfyd cartref ddylai fod ei huchelgais benaf. Cartref yn adlewyrchu trefn a dylanwad rhinwedd, doethineb, a chariad, yw gogoniant godidocaf gwraig—yr orseddfainc fwyaf anrhydeddus a all gwraig fyth deyrnasu oddiarni. "Charity begins at home," medd y ddiareb Seisnig. Gwir. Ond nid yw hyn yn dysgu neu yn cymmeradwyo hunanolrwydd neu *selfishness*. "Begins," medd y ddiareb—nid "is limited to"—yn dechreu, yn cychwyn, i fyned allan yn ffrydlif haelionus a bendigedig. Nid ydym yn cyfyngu ein cymmwynasgarwch i aelodau ein teulu yn unig. Y mae Rhagluniaeth wedi planu yn ein natur y reddf gymdeithasol yn gystal a'r reddf deuluol. Mae pob teulu ar wahan oddiwrth bob teulu arall; ond i wneuthur i fyny gymdeithas, y mae teulu yn nghydbleth â theulu—y naill yn ymddybynu ar y llall, a menyw yn chwareu rhan nid dibwys.

Fel yn y corff anianol, felly yn y corff gwleidyddol—os bydd un aelod yn cael cam, mae yr holl gorff yn dyoddef. Nid gwiw anwybyddu, diystyru, ac esgeuluso peth mor eiddil a gwael â menyw. Oddiwrth yr addysg uwchraddol sydd yn rhan i fenyw fel i wrryw y dyddiau presennol, mae rhai gwrrywod yn proffwydo dirywiad menyw, yn enwedig gyda golwg ar ei chymhwysder i fod yn wraig neu fam a gofal ty ar ei dwylaw. Nid hyn oedd barn y rhai a agorasant byrth y colegau iddynt, ac ni wnawd hyny heb yr ystyriaeth hir a dofn a deilyngai peth mor sobr a phwysig. Mae *rhai* gwrrywod, mi wn, a syniad digon isel

am gynneddfau menyw, ond dim ond *rhai* yw y cyfryw. Mae rhai â thuedd i weled y brychau a'r manau gweinion, ac i anwybyddu a diystyru rhinweddau pob peth bron.

Nid wyf fi yn honi fod galluoedd menyw gyfuwch ag eiddo y gwrryw fel rheol. Byddai hyny mor wrthun ag yw o ddisail mor bell ag yr ä ffeithiau hyd yn hyn. Ond mae menyw wedi gwneyd, nid yn unig yn o dda, ond wedi rhagori mewn llawer cyfeiriad—mewn gwyddor, mesuroniaeth, celfyddyd, anianeg, llenyddiaeth, meddygiaeth, a duwinyddiaeth. Mae wedi sefyll prawf colegawl, ac wedi dyfod allan yn fuddugoliaethus, hyd y nod yn mhlith y *Senior Wranglers*. Beth am Drs. Mary Anderson a Walker, Mrs. Somerville, a Caroline Herschell? A pha beth mwy a ddywedaf, canys yr amser a ballai i mi fynegu am George Eliot, Harriet Martineau, Rosa Bonheur, Lady Butler, Ellen Terry, Mrs. Fawcett a'i merch Helen, Mrs. Ormiston Chant, y Frenines Elizabeth, ein byth-ogoneddus Victoria, a Deborah anrhydeddus yn mhlith barnwyr anrhydeddus Israel.

A pha beth yw y wladwriaeth ond teulu ar *scale* fawr? Yn y teulu gartref y mae safle menyw bron cyfuwch ag eiddo'r gwr. Rhoddir clust i'w llais, cydnabyddir ei hawdurdod, ac ymostyngir i'w barn; ond yn nheulu mawr y wladwriaeth nid yw menyw ond *cipher*, ac o herwydd hyn dan anfantais fawr. Y mae menyw yn gorfod ymostwng i'r un deddfau, ac os yn weddw neu yn ddibriod, dalu trethi fel y gwrryw; ond am lais yn y wladwriaeth, nid oes iddi hi un, am y ffaith syml ei bod y creadur diffrwyth, dibwys, hyny a adnabyddir wrth yr enw "menyw."

Y wladwriaeth fwyaf odidog yw hono sydd, nid yn unig yn cydnabod y gweiniaid a'r rhai o isel radd—y rhai dinod, ond sydd yn ymddwyn tuag atynt fel tuag at bawb ereill—oddiar egwyddor cyfiawnder a chwareu teg. Plant yr un Tad Cyfiawn, a brodyr a chwiorydd yn Iesu Grist, ydym i gyd, er ein gwahanol amgylchiadau a'n gwahanol farnau. Ai nid yw heddwch a llwyddiant a dyogelwch y wladwriaeth yn perthyn i fenyw yn llawn cymmaint ag iddo ef sydd yn honi ei fod yn arglwydd ac yn feistr arni? A all meddwl menyw ddim amgyffred, i ryw fesur, ystyr a chynnwysiad gwleidiadaeth neu y gair "Politics." A ydyw yn rhesymol meddwl am foment na all menyw, dim ond o herwydd ei rhywogaeth, ddim sylweddoli, i fesur mor helaeth â llawer gwrryw sydd â'r bleidlais yn ei feddiant, y gwahaniaeth rhwng Whig a Thori, y gwahaniaeth rhwng daliadau y gwahanol bleidiau yn y deyrnas, pwnc y trethi, sylfaen telerau gwlad a gwlad, rhyfel, neu yr egwyddor, am sylweddoliad yr hon y mae Cymru ar dân o'r gogledd i'r de, o'r gorllewin i'r dwyrain—yr egwyddor o gydraddoldeb crefyddol. *No pet child wanted here. Hands off as to my religion.* Ein busnes ein hunain yw crefydd: nid oes a fyno'r wladwriaeth â hi. Yr oedd crefydd yn y byd cyn bod Eglwys Wladol. Bu crefydd byw yn Nghymru er gwaethaf Eglwys Wladol. Bydd crefydd byw etto ar ol Dadgyssylltiad cyhyd ag y bydd Duw a chred yn Nuw, a ffydd yn Nghrist ac yn addysgiadau ac addewidion yr Efengyl, yn nghalonau dynion. Mae Eglwys Wladol yn sarhad i ni fel cenedl grefyddol.

Mae y Toriaid yn haeru mai hwy ydynt wir gyfeillion y wlad a'r werin; oni b'ai am danynt hwy, barbariaid a chaethion fuasem hyd y dydd heddyw; mai iddynt hwy y mae i ni ddiolch am y rhyddid a'r breintiau yr ydym yn fwynhau fel pobl gyffredin. Y maent, meddent hwy, lawer tro, ac yn erbyn ein hewyllys, wedi ein gorfodi ni, y werin, i dderbyn braint nad oedd yn ein meddiant o'r blaen. Carwn I wybod pa mor bell y mae'r haeriad hwn yn wir, ac hefyd pa egwyddor oedd yn eu cymhell hwy yn eu hymddygiad tuag atom drwy'r oesoedd—ai egwyddor cydymdeimlad a chyfiawnder i fodau dynol fel hwynthwy eu hunain, neu oddiar *self-interested policy*—gwneyd cymmwynas, am mai cymmwynas oedd yr unig *investment* i gyrhaedd yr amcan oedd gandynt mewn golwg—eu hunan-les. Os mai y Toriaid sydd iawn—os mai gwir yw yr hyn ddywedant am eu hymddygiad yn y gorphenol, rhyw greaduriaid dall, twp, ystyfnig, cul, rhagfarnllyd, anniolchgar iawn ydym ni, y Blaid Ryddfrydol!

Yr wyf fi yn ystyried ei bod yn foesol rwymedig ar fenyw i roddi i'r pwnc o wleidiadaeth ei sylw difrifolaf. Byddai ei anwybyddu a'i lwyr esgeuluso yn annghyfiawn, yn beryglus, ac yn anesgusodol ar unrhyw ystyr, yn feius o herwydd y possiblrwydd o'n dylanwad ni er da neu er drwg, yn enwedig ar y do sydd yn codi—ar y plant.

Etto, gydag golwg ar y bleidlais, ar fy rhan fy hun, fel gwraig briod, nid wyf fi yn hawlio nac yn gofyn am y bleidlais. "Two lions do not roam the same forest." [Cyfieithwch chwi hynyna fel y mynoch.] Yr ydym ni yn foddlawn i'r gwrrywod barhau yn arglwyddi yn ein teuluoedd fel y maent yn y greadigaeth; ond dysgwyliwn iddynt barchu a chydnabod hawliau ac angenion arglwyddesau y greadigaeth, ac ymddwyn tuag atynt gyda chyssondeb a chyfiawnder. Ni fynwn I fod menyw byth yn cymmeryd at y *breeches* ac yn taflu o'r neilldu y bais, er fod hyny wedi bod yn angenrhaid ac yn dda lawer tro.

Mae hanesyn ar gael fod tref wedi ei hamgylchynu a'i darostwng gan y gelyn. Cyn myned i fewn i ddodi y dref ar dân a chludo y dinasyddion i gaethiwed, anfonodd y penllywydd gais i'r menywod a'r plant fyned ymaith a dwyn yr hyn a allent ei gario gyda hwynt. Agorwyd y pyrth, ac er syndod i'r milwyr buddugoliaethus, wele bob menyw yn dyfod allan â'i gwr, neu ei brawd, neu ei thad, neu ryw wrryw arall, ar ei chefn. "Rhwydd hynt" oedd banllef pob llais hyd y nod yn mhlith y gelyn wrth weled y fath olygfa gyffrous.

Rhywbeth o'r fath ddymunwn ni fod ymddygiad y menywod, yn enwedig y gwragedd, tuag at y gwrrywod—*alter ego—second self*—arall hunan—yn barod mewn cyfyngder i'w cynnorthwyo a'u cario ar eu cefnau.

Ac yn awr, cyn terfynu, swm y cwbl yw, pleidio achos Undeb Rhyddfrydol Cymreig y Menywod. Amcan y mudiad yw,—

1. Dyrchafu a gwella sefyllfa menywod.
2. Helpu cael deddfau cyfiawn i fenywod a phlant, y rhai nid oes ganddynt yn bresennol.
3. Rhoddi cyfleusderau i fenywod ddefnyddio eu dylanwad i gadw yr

etholiadau yn bur ac yn rhydd oddiwrth bob llygredigaeth, ac mor bell ag sydd bossibl, helpu i sicrhau dynion o foesoldeb uchel i bob swydd gyhoeddus.

4. Edrych fod enw pob menyw fo'n meddu'r hawl ar y *register*, fel y gall bleidleisio yn yr etholiadau sirol a phlwyfol, gan ei bod mewn meddiant o'r bleidlais hono yn barod.

5. Rhoddi i fenywod, trwy offerynoliaeth cyfarfodydd, dosparthiad traethodynau a phamphledau, a thrwy gyrddau cymdeithasol, wybodaeth gywir am wleidiadaeth, yn enwedig mor bell ag y mae a fyno a'u dosparth hwy.

6. Annog menywod i fwy o wroldeb i ddyfod allan fel ymgeiswyr am aelodiaeth ar y Byrddau Ysgol, Byrddau y Gwarcheidwaid, &c., lle yr addefir y gall profiad a dylanwad menyw fod yn ddefnyddiol iawn. Dim ond tair menyw sydd yn Nghymru yn aelodau ar Fyrddau y Gwarcheidwaid, yn lle deugain o honynt yn y man lleiaf. [Cofier i mi ysgrifenu hyn cyn yr etholiadau diweddaf.] Mae llawer o bethau mewn cyssylltiad a menywod yn y *workhouses* neu'r tlottai na ddylai neb ond menyw gael ymwneyd a hwy. Mae yn brofiad chwerw i lawer o'r merchetach hyna i orfod myned o flaen y gwrrywod i adrodd eu cwyn, ac ni all lai na bod yn niweidiol iawn i gymmeriad moesol y trueiniaid. Etto, mae llygad menyw, o herwydd ei phrofiad personol gartrefol, yn fwy treiddgar a chraffus i weled diffygion yn nhrefniant mewnol y *workhouse*, ac am yr un rheswm y mae menyw yn fwy galluog i awgrymu gwelliantau. Beth, fel rheol, wyr y gwrrywod am y math goreu o fwyd neu o ddillad ar gyfer yr oedranus, y claf, a phlant? Yn ngofal y Cynghorau Sirol y mae *reformatories*, neu ysgolion diwygiadol i blant, *industrial schools*, *lunatic asylums* neu wallgofdai, a llawer o sefydliadau ac achosion ereill yn y rhai y mae y rhyw fenywaidd yn ffurfio rhif lluosog, neu ddyddordeb byw a dylanwad a gwasanaeth menyw yn bwysig er sicrhau defnyddioldeb a llwyddiant boddhaol a chyflawn y cyfryw. Am y rhesymau hyn y mae yn anhebgorol angenrheidiol fod menywod yn aelodau o'r Cynghorau Sirol.

7. Amcan arall gan y gymdeithas yw deffroi menywod o'u cysgadrwydd, eu difaterwch, a'u hesgeulusdod, yr hyn fu yn achos iddynt golli y bleidlais, a'u symbylu i wneyd pob ymdrech i w hail-feddiannu, ac yna i'w gwerthfawrogi a'i iawn ddefnyddio. Mae menyw, o herwydd ei bod yn amddifad o bleidlais, dan anfantais. Nid yw yn amgenach nâ *cipher* yn y wladwriaeth, ac o herwydd hyny, ar lawer o adegau, nid yw yn gallu sicrhau y sylw a'r ystyriaeth y mae ei chyflwr ac amgylchiadau yn perthyn iddi hi—i'w dosparth hi—ag angen am danynt oddiar y wladwriaeth. "Close, direct interest commands attention, prompt and careful," yw y rheol yn mhob cyfeiriad yn ddieithriad. Y mae y gwrthwyneb mor wir â hyny. A phe byddai gan fenyw y bleidlais, gallai ei defnyddio yn effeithiol iawn, dybygwn, ar bwnc rhyfel, pwnc y *Local Veto*, neu bwnc y clybiau hyna sydd o foreu hyd foreu bron heb un hawl gan heddgeidwad na neb arall i ymhyryd â hwy—sydd, meddaf, â safn agored yn llyncu ein pobl hen ac ieuainc i ddinystr a thrueni. Calon

mam, gwraig, neu chwaer, sydd fwyaf aml yn cael ei rhwygo gan dristwch a gofid y fath gyfundrefn gyfeiliornus.

Mae yr Undeb o'r hwn mae ein cymdeithas yn gangen yn lledaenu ei waith ar hyd ac ar led Cymru. Cyfrifir yr aelodau tua 9000, a'r cymdeithasau tua 40. Yn Lloegr a Chymru y mae'r aelodiaeth yn 100,000. Dosparthwyd yn y flwyddyn ddiweddaf dros 60,000 o draethodynau (*tracts*) ar Ddadgyssylltiad yr Eglwys, Ymreolaeth, a phynciau yn perthyn i fenywod, sef, er enghraifft, fod i fenyw dâl cyfartal am waith cyfartal. Yn ol tystiolaeth y Ddirprwyaeth Freiniol ar Lafur yn ddiweddar, meddai Mrs. Maclaren yn Nghaerdydd tua phythefnos yn ol, nid oedd y tâl yr oedd menyw yn ei dderbyn ond dwy ran o dair o'r hyn yr oedd gwrryw yn ei dderbyn am yr un gwaith. Pa synwyr cyffredin neu gyfiawnder sydd mewn egwyddor o'r fath?

Mae eisieu i ni, fenywod, ddihuno. Nid yw yn un gymmwynas â neb fod y fath sefyllfa ar bethau yn cael ei chaniatau i aros. Y mae yn gam â ni, y menywod, ac yr ydym ni yn gwneyd cam â'r gwrrywod ein bod yn goddef i'r fath gamwri barhau Os na allwn *ni* sylweddoli ein gwir safle, a gwerthfawrogi ein hunain a'n galwedigaeth fel rhan o'r hiliogaeth ddynol, ymddwyn yn rhesymol, a hawlio cyfiawnder, pa fodd y gallwn feio neb am ein mesur wrth ein llathen ein hunain? Parchwn ein hunain, a ni a'n perchir.

Yr wyf yn cofio bod mewn ty unwaith Yr oedd y wraig a minau yn ymddyddan am rywbeth—nid wyf yn cofio beth—nid gwleidiadaeth yr wyf yn sicr. Yr oedd y gwr yn darllen y newyddiadur. Yn mhen ychydig tynodd ein sylw at y dygwyddiadau cythryblus a phwysig, yn ol y papyr, oeddynt newydd gymmeryd lle yn Senedd Ffrainc, yr hon oedd wlad eu genedigaeth, ac yn naturiol, yn agos iawn i'w calonau, yn enwedig a hwy mewn gwlad estronol, gallwn dybied. Cyn iddo gael amser i orphen ei sylwadau, cododd y wraig, a 'ffwrdd â hi. Cynhyrfodd hyn ef gymmaint nes iddo golli llywodraeth arno ei hunan i raddau, a dweyd, "Dyna hi—dim dyddordeb mewn dim ond ffasiynau—*new dress—society gossip—a regular doll!*" Gwnaeth yr amgylchiad argraff ddofn ar fy meddwl. Teimlwn fy mod wedi cael "peep behind the scenes" ar sefyllfa anfoddhaol ac annymunol pethau. Teimlwn fod y wraig yn fyr o'r hyn fyddai, nid yn unig yn foddhad i'r gwr ond o bwys i'w gysur a'i hawddfyd, efallai. Nid oedd y wraig ond *housekeeper*—cydmar nid oedd. Teimlwn y gallai mai dyma un o'r *secrets* neu'r rhesymau paham y mae rhai dynion yn treulio llawer o'u horiau hamddenol yn y clwb neu y dafarn.

Nid ar y gwrrywod yn hollol mae'r bai fod pethau fel y maent. Ar y menywod eu hunain mae'r bai. Ni chyfarfum I etto â dyn clustfyddar i gwyn rhesymol menyw—nad oedd dyner dros gysur a hawddfyd menyw. Ar y menywod eu hunain y mae y bai. Mae hen ddiareb i'r perwyl hwn—"Nid oes neb mor ddall â'r hwn ni fyno weled," neu fel y dywed yr Ysgrythyr, "Llygaid sydd ganddynt, ond nid ydynt yn gweled; clustiau sydd ganddynt, ond nid ydynt yn clywed." Cyflwr truenus yw cyflwr o'r fath—cyflwr ag y mae yn anhawdd gwneyd un

argraff arno—cyflwr anhawdd deffro o hono ac ymadfer i fywyd a gwaith. Yn y cyflwr hwn, y mae arnaf ofn, y mae nifer mawr o'n chwiorydd y dyddiau presennol. Maent yn foddlawn ar bethau megys ag y maent: nid oes eisieu newid dim arnynt hwy, nid oes eisieu y bleidlais arnynt hwy, nid oes eisieu i fenyw fusnesa mewn dim y tu allan i'w theulu ei hunan, meddant hwy; mae pob peth yn iawn fel y mae, yn eu tyb hwy. Felly!! meddaf finau, ond beth am y nifer mawr —rhyw bedair miliwn—sydd heb deuluoedd ac yn gorfod myned allan fel gwrrywod i ennill eu bara beunyddiol? A ydyw yn deg fod y rhai hyn yn cael eu hanwybyddu, eu diystyru, a'u llethu dan ddeddfau annghyfiawn sydd yn cael eu goddef i barhau o herwydd difaterwch a diofalwch eu chwiorydd sydd wedi dygwydd cwympo i fewn i sefyllfaoedd mwy ffortunus? Meddyliwn am gyflwr y menywod yn y *phosphorous matches factories*, yn y *white lead factories*, fel y desgrifiwyd hwy yn ddiweddar gan Mrs. Mallet yn Aberdar; meddyliwn am sefyllfa menywod dan y *sweating system* yn Llundain a manau ereill yn ein teyrnas, neu fel y desgrifiwyd hwy yn Adroddiad y Ddirprwyaeth Freiniol ar Lafur yn y *S. W. D. News*. Mae y ffeithiau yn gywilyddus ac yn dorcalonus, a dylai yr ystyriaeth y gallai diwygiad mwy buan gael ei ddwyn oddiamgylch pe buasai menywod ein gwlad yn ymrestru yn nghyd i chwyddo y cri yn erbyn y fath gyfundrefn greulon a diegwyddor, yru pob menyw sydd â chalon yn ei mynwes i wneyd yr hyn a allo i nerthu ac i ddal i fyny freichiau y rhai hyny sydd a'u holl egni gyda'r gwaith o ddiwygiad.

Trwy offerynoliaeth yr Undeb, cafodd dwy foneddiges eu pennodi yn ddiweddar i fod yn *factory inspectors*; hyny yw, edrych ar ol angenion ac hawddfyd menywod a phlant yn ngwahanol *factories* ein gwlad. Mae y ddwy foneddiges wedi cyflawnu eu gwaith mor rhagorol, nes y mae yn mwriad yr awdurdodau i ychwanegu at eu rhif.

Yn ddiweddarach, trwy yr un offerynoliaeth, pan wnawd cynnyg at rwystro menywod i weithio ar ben y pwll a manau ereill—mewn gweithfeydd hoelion a chadwynau er enghraifft, bu'r Undeb yn foddion i wrthwynebu hyny yn effeithiol.

Er mwyn dangos eich cydymdeimlad a'r Undeb, nid oes eisieu i chwi sefyll ar lwyfan a gwneuthur araeth. Mae rhai, mi wn, yn cadw yn ol o herwydd ofni fod dysgwyliad iddynt gyflawnu rhyw wrhydri—rhywbeth yn gyhoeddus ac yn ngwyneb torf. Dim o'r fath beth. Er bod yn aelodau, ni ofynir mwy oddiwrth y rhai hyny nad ydynt yn dewis gwneyd rhagor na rhoddi eu henwau a thalu rhyw gyfran—ceiniog os mynwch—tuag at dreuliau y gymdeithas, a hyny unwaith yn y flwyddyn.

Nid llawer o beth yw dafn dw'r, na gronyn o dywod y mor; ond ni fyddai'r eigion yr hyn yw heb y dafn dw'r, na'r traeth yr hyn yw heb y gronyn tywod. Os bach yw ein cymhwysderau, os bach yw cylch ein dylanwad, na wangalonwn. Gwnewn yr hyn a allwn—"*Angels can no more.*" Ni ofynir rhagor.

Yr wyf yn sicr y bydd y teimlad o fod yn aelod o'r Gymdeithas, ar y cyfnod presennol, dan arweiniad y fath oleuadau dysglaer ac anrhydeddus a Lady Aberdeen, Lady Henry Somerset, Mrs. Wynford Phillips, Mrs. Eva Maclaren, Miss Conybeare, ac yn olaf, ond nid y lleiaf, Mrs.

D. A. Thomas—bydd y teimlad, meddaf, yn ddafn melus yn nghwpan y cof mewn amser buan iawn—y teimlad o fod yn un, er yn fach, yn offerynol er dwyn oddiamgylch flaenfynediant yr oes tuag at fwy o gydraddoldeb rhwng menyw a gwryw, tuag at ddeddfau mwy cyfiawn, gwell telerau rhwng dyn a dyn, llai o wneyd arian ar gost corff ac enaid—mwy o chwareu teg *all round*, mwy o gymmwynasgarwch a chariad brawdol, mwy o egwyddor yr Ysgrythyrau sanctaidd—"Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl *galon*, a'th holl *enaid*, ac a'th holl *nerth*, a'th *gymmydog* fel ti dy hun."

Anwyl Chwiorydd,—Y mae y ffiniau—"Rubicon"—wedi eu croesi. Nid oes dim troi yn ol. Mae gwawr y dydd yn ymagor ar grib y mynydd draw, ac adlewyrchiad dysgleirdeb haul yn fflachio ar y ffurfafen. Mae maes ffrwythlawn o'n blaen: mwy eang, mwy rhydd, mwy gogoneddus yn ei gyflawnder, mwy cysson â synwyr cyffredin a chyfiawnder. Na fyddwn gowardiaid, na fyddwn fradychwyr, na fyddwn ddall a byddar i'n *interest* goreu. Ystyriwn, pwyswn, sylweddolwn, ymegniwn yn mlaen at fwy o gydraddoldeb â'n brodyr yn feddyliol a gwleidyddol. Cyhuddir ni o fod yn wan mewn *logic*, neu'r gallu ymresymu; cyhuddir ni o fod yn *superficial*; cyhuddir ni o fod yn greaduriaid o fyrbwylldra ffol a nwyd dall. Hanner y peth i wella yw adnabod ein ffaeleddau. Efallai y gallwn ni wella. Cydnabyddir fod gan fenyw rinweddau sydd yn dylanwadu yn fawr ar gymmeriad ac ar ymddygiad dyn. Glyned wrth y rhai hyny, gwrteithied y rhai hyny, ymhelaethed ar y rhai hyny; ond eanged ei dyddordeb, eanged maes ei gwybodaeth, eanged ei chydymdeimlad a'i gwasanaethgarwch. Bydd yn lles iddi hi ei hunan, ac yn fendith i ddynoliaeth. Rhodded hufen ei bywyd i'w thy a'i theulu, ond cyfraned ran o'r llaeth at wasanaeth a hawddfyd cymdeithas.

Broniestyn, Aberdar. A.G.J.

LLINELLAU COFFADWRIAETHOL

AM Y DIWEDDAR EVAN W. JONES, COEDMORFAWR, LLANBEDR.

(Y goreu yn Eisteddfod Brondeifi. Beirniad, y Parch. R. J. Jones, Aberdar.)

Drist wirionedd! yn fy mynwes gweinia'i finiog gledd yn awr--
Collais fynwesolaf gyfaill—Evan Jones o Goedmorfawr.
Etto, coffa'r dylanwadau gefais yn nghymdeithas hwn,
Os na thry y Mara'n felus ysgafnha fy ngalar bwn.
Tyfai siriol, hardd, flodeuyn lle gosodai ef ei droed;
Ni ddych mygais am flodeuyn bedd ffrynd deg-ar-ugain oed!
Ei ddylanwad da weithredai mewn gwastadol, ddystaw nerth,
Fel na ddarfu im' adnabod, nes ei golli, faint ei werth.
Pan ddaw angeu i gymmeryd ambell un o'r ddaear lawr,
I roi cyfrif o'i weithredoedd i'r tragwyddol Frenin Mawr,

Ni chanfyddir unrhyw olion o'i fodolaeth yn ein byd,
Oddieithr yn y pethau a ddinystriodd ef cyhyd,
Olion hoff rinweddau Evan ydyw'r hyn ganfyddaf fi—
Olion hoff adeilad bywyd prydferth—patrwn hardd i lu.
Clywai ef mai celf oedd bywyd, fod ei dysgu'n gofyn medr,
Penderfyniad, llafur ffyddlon, o hen bwlpud glân Llanbedr.
Ni chaed mynwes fwy awyddus i feddiannu'r Da a'r Pur,
Nâ defosiwn yn barotach i ymlynu wrth y Gwir;
Ymddiriedaeth seml a feddai yn ngoleuni'r byd a ddaw;
Credai fod yn ymddysgleirio haul tucefn i'r cwmmwl draw.
Yn Mrondeifi, neu gymdeithas, oedd Undodwr selog, cryf;
Dyrchai dros hen ffydd ei enwad, pan f'ai galw, lais yn hyf.
Hyddysg ydoedd mewn gwleidyddiaeth, mewn materion plwyfol, brwd,
Ynddynt byddai yn ei elfen fel y brithyll yn y ffrwd.
Hawddgar frawd a mab ffyddlonaf, cyfaill unplyg, didwyll, cu,
Yn y ffair fel yn y capel, sobr o hyd ei fywyd fu.
Llygad clir yn medru canfod llwybr dyledswydd feddai ef,
Llyfn neu arw, gwnelai'i rodio gyda grym ewyllys gref.
Y rhinweddau a wnai garu, harddach ydynt er ei fwyn,
Y daioni a fynwesai ddwg i mi 'chwanegol swyn.
Ust! daeth angel ar amrantiad ar dân aden mellten chwim
A'i frys-wysio oddiwrthym, heb roi gair o rybudd—dim.

LLEDDF,
Sef y Parch. D. Ifor Davies, Rhondda.

[Cyhoeddir yr ail-oreu yn ein nesaf.—GOL.]

CREFYDD CYMRU FYDD.

"CYMRU Fydd." Dyna welir ac a glywir yn mhob man y dyddiau hyn—yn ein newyddiaduron, ar ein llwyfanau gwleidyddol, ac yn ein cynnadleddau crefyddol. Gwawdir gan rai. Ereill a ddefnyddiant y frawddeg fel desgrifiad cywir o'r hyn a dybiant y dylai Cymru fod—yn llenyddol, yn grefyddol, yn gymdeithasol, ac yn wleidyddol; a dywedant mai dyledswydd pob Cymro yw gwneyd ei ran yn y presennol er sylweddoli'r darlun.

Mae'r Cymro yn caru ei wlad â chariad dwfn. Pa ddyn sydd heb fod? Ond mae cariad y Cymro at ei wlad yn fwy angerddol, dwfn, a pharhaol nâ'r cyffredin. Er gorfod teithio o hono i wledydd pellenig, a gwneyd ei gartref yn mhlith dyeithriaid, teifl olwg aml yn ol at ei hen wlad, cwyd ochenaid drom o hiraeth yn ei fynwes am dani, a a llawenha yn mhob dyrchafiad a llwyddiant a ddaw i'w rhan. Beth all fod yn fwy naturiol? A pha beth all fod yn fwy naturiol na bod y Cymro (pob Cymro), wrth weled diffygion ei genedl, a'r bywyd sydd yn bossibl iddo ond etto heb ei gyrhaedd, yn cael ei ysprydoli gan dân serch i wneyd ei ran er ei ddyrchafu?

Arwydd amlwg yr amserau presennol yw fod Cymru yn effro; ac arwydd galonogol iawn ydyw. Edrycha'r gwleidyddwr i'r dyfodol, a

gwel ei holl freuddwydion wedi eu sylweddoli. Edrycha'r addysgarwr *(educationalist)* yn mlaen hefyd, a gwel Gymru yn sefyll mewn dysgeidiaeth ar ben y pinacl. Edrychwn ninau yn mlaen i'r dyfodol, a gwelwn grefydd fwy rhesymol ei haddysgiadau, a mwy iachus ei dylanwad wedi cymmeryd lle y grefydd a broffesir yn awr. Graddol iawn, efallai, fydd y cyfnewidiad; ond bydd yn sicr. Nid ydym am haeru am foment mai y ffurf o grefydd a broffesir genym ni yn awr fydd crefydd Cymru Fydd. Bydd yn nes at y gwirionedd nag un ffurf sydd ar gael yn awr. Nid yw'r gwirionedd yn fater *un* blaid. Mae gwirionedd yn mhob man; ond y mae llawer iawn o us yn gymmysgedig ag ef. Fel y bydd amser yn treiglo ymaith, bydd yr us yn cael ei wasgar, a'r gwirionedd yn aros.

O un peth gellir bod yn sicr: na fydd crefydd Cymru Fydd yn meddu credo ystrydebedig. Perthyna y rhai hyn i dywyll oesau y byd. Mewn oes ddiwylliedig maent allan o le. Mae credoau ystrydebedig yn gyffredin yn ffrwyth anwybodaeth. Meddylir fod pob gwirionedd crefyddol wedi ei amlygu: fod y gwirioneddau hyn yn y credoau (pob un yn credu mai ei gredo ef sydd iawn); ac nad yw yn bossibl gwneyd cynnydd. Ond fel y mae dyn yn dod i wybod mwy, gwel dlodi ei gredo yn amlwg yn ngoleuni ysplenydd y gwirioneddau newyddion ddeuant i'r golwg; gwel nad yw wedi cael ond cipolwg anmherffaith iawn ar y gwirionedd; ac fod yna feusydd eang o'i flaen i ddirgelwch y rhai y gall dreulio oes gyfan i chwilio, heb lwyddo i wybod ond ychydig am danynt yn y diwedd. Un elfen bwysig yn nghrefydd Cymru Fydd, gan hyny, fydd rhydd ymchwiliad. Ac yna ni chlywir son am gredoau ystrydebedig mwyach.

Bydd raid i'r syniad cul a chaled am Dduw a bregethir ac a gredir heddyw roi lle i syniadau mwy ardderchog—mwy cydfynedol â gwybodaeth dyn am natur. Ni ddaw dyn byth i wybod beth yw'r sylwedd sydd yn gweithio yn mhob peth, a'r hwn a elwir genym ni yn Dduw; ond dylem fynu'r syniadau goreu am dano. Mae syniadau dynion am Dduw yn cyfnewid o oes i oes. Nid yr un peth yw desgrifiadau'r Hen Destament o Dduw ag eiddo'r Testament Newydd. Nid ydym i ddeall oddiwrth hyn fod Duw yn cyfnewid; ond fod dyn yn dod i ddeall y bydysawd yn well, ac felly i ddeall yr *achos* sydd y tu cefn i'r (neu yn y) bydysawd; ac nid ydym yn sicr mai ein syniad ni am Dduw yn awr yw y goreu. Dywedwn ni fod Duw yn berffaith, yn gariad, ac yn Dad; ond rhaid i ni gyfaddef nad ydym bob amser yn alluog i weled fod y gosodiadau hyn yn wir; o herwydd gwelwn rai pethau ydynt yn ymddangos i ni yn groes i'r hyn a ddysgwyliem ni oddiwrth Dduw perffaith, cariadlawn, a thadol. Dim ond mewn ymddangosiad y maent felly, mae'n wir; a'n hanwybodaeth ni yw'r achos ein bod yn credu felly; ond cyhyd ag y byddom ni yn methu cyssoni dygwyddiadau natur â'r syniad fod Duw yn gariad, mae ein syniad am dano yn anmherffaith; ond fel y deuwn i ddeall natur yn well, daw ein syniadau am Dduw yn fwy cywir a gwirioneddol. Ni chyll y byd ei afael ar y syniad *fod* Duw; ond fel y bydd dynion yn dod i ddeall ffyrdd Duw i weithredu yn y bydysawd yn well, daw'r ym-

deimlad o Dduw yn ddyfnach ac yn gryfach. A hyn sydd eisieu. Nid beth feddyliwn ni am Dduw sydd holl-bwysig, er y dylem feddwl y syniadau goreu am dano. Yr hyn sydd yn bwysig yw teimlad parhaus o bresennoldeb yr Holl-berffaith. Gall ein syniadau fod yn ddiwerth; ond mae'r ymdeimlad o Dduw yn dylanwadu ar fywyd. A dyma, ni a obeithiwn, fydd un elfen bwysig yn nghrefydd Cymru Fydd.

Elfen arall (a'r unig elfen gaf gyfeirio ati yn awr) yw ochr ymarferol crefydd. Bydd y dyfodol yn colli golwg ar Iesu Grist fel Duw ddyn; ond daw i'r golwg yn fwy amlwg fel dyn, fel diwygiwr, ac fel esiamplydd. Mae twrdd yr oes bresennol yn amlwg yn y cyfeiriad hwn. Nid yw Iesu Grist y duw a'r gwneuthurwr gwyrthiau yn meddu llawer o swyn i'r meddyliau mwyaf coeth a chwrteithiedig heddyw; ond mae Iesu Grist y bregeth ar y mynydd, a'r dammegion, cyfaill y gwan a'r diamddiffyn, yn dod yn wrthddrych parch ac edmygedd mwy dwfn yn barhaus. Credwn y cymmer yr un peth le yn Nghymru—y bydd dynion yn colli eu golwg ar Iesu Grist fel bod goruwchddynol, ac yn dod i edrych arno yn fwy fel dyn yn unig, ac ar ei addysgiadau a'r esiampl o fywyd uchel.

O un peth yr ydym yn teimlo yn lled sicr—y bydd dynion yn dod i garu bywyd moesol yn fwy fel y bydd gwybodaeth yn helaethu; a'r grefydd ymarferol—y grefydd fwyaf ymarferol—y grefydd fydd yn appelio at natur foesol dyn—fydd y grefydd dderbyniol. Ni ddywedwn mai gyda ni y mae'r grefydd hon; ond dywedwn hyn, y gall fod gyda ni, os ydym ni yn dewis. Gall fod gyda un o'r enwadau ereill; ond rhaid cael gwared o lawer o'r us sydd yn awr yn gymmysgedig â hwynt.

ARGUS.

SWP O ENGLYNION.

ALLAN O GRONFA "GWR O GEREDIGION."

Ffydd dduwiol, wreiddiol, a'r weddi heb lid,
Ffydd a blode arni;
Ffydd heb un awr ddiffoddi;
Ffydd gref aiff i'r nef a ni.—*Dienw?*

I ganlyn undyn nid â moi olud
pan elo vo oddi yma
Y vo â, 'r ol y dyn ffola
i'w daith, i weithredoedd da.—*Rys Davydd ap Ieuan.*

Gwenieth a ddoedai gannyn yn v wyneb,
anonest vydd rhywddyn
wrth i weithred gredadyn
yn wir i'r adweinir dyn.—*W. Kynwal.*

ENGLYNION SEISNIG.

Mae y *South Wales Daily News* wedi bod yn cyhoeddi lluaws o enghreifftiau o englynion Seisnig yn ddiweddar, ac yn eu plith ddau a allant fod o ddyddordeb i ddarllenwyr Yr Ymofynydd, er mwyn eu hawdwyr. Tebyg fod y cyntaf wedi ei ysgrifenu er mwyn dyfyrwch :

I think I will drink a drop—of cider,
At a sudden gallop;
A wholesome glass of Allsopp,
Or a pint of ginger pop.—*Gwilym Gwenog.*

Yr oedd Iolo Morganwg yn dygwydd bod yn Llundain, pan y synwyd ef gan ganu swynol rhyw ferch ieuanc. Pan welodd hono Iolo, fodd bynag, darfu i'w wisg hynod, a'i olwg ryfedd, yru math o fraw arni, nes ei hanalluogi i ganu. Ar hyny, moesgyfarchodd Iolo hi yn foneddigaidd iawn, a dywedodd :

Oh glorious, beauteous Betty!—how lavish
Has love been of bounty;
Sing more, and sing merrily,
Don't, fair maid, pray don't fear me.

RHES O DDIAREBION LLEOL.

(Darllenwyd o flaen Cymmrodorion Merthyr, gan Gwernyfed.)

[PARHAD.]

'Hir yw pob aros, ond byr pob difyrwch." 'Ddaw byth i ben;' ond mae deffiniad Shoni Pontypwl yn fwy calonogol; yr oedd cymmydog iddo wedi cael ei alltudio am ladrata defaid am saith mlynedd; 'Wel, wel,' ebai Shoni, 'y mae byth yn hir, ond y mae saith mlynedd yn hirach o beth ofnadwy.' Ymadrodd awgrymiadol o nacaol neu rywbeth felly. 'A thro yn ei gwt,' yw bod 'Yr oen yn dysgu'r ddafad i bori," oblegyd 'Fe wyr hen ddafad b'le mae porfa.' Beth debygech chwi am 'Ddysgu'r famgu i odro'r hwyaid?' Mae'n wir mai 'Gwell pob crefft o'i harfer,' ond 'Sala arfer, direidi.' Afreidiol iawn yw ceisio 'Dysgu hwyaid i nofio,' 'Dysgu hen geiliog i ganu,' neu 'Ddysgu hen gath i grafu â'i llygaid yn nghau,' 'Dysgu plant i chwareu,' 'Dysgu wyn bach i brancio,' 'Dysgu gwiwer i gneua,' 'Dysgu cath i lygota,' 'Dysgu crychydd i lyncu llysŵen,' 'Dysgu gwenol i nythu,' 'Dysgu cath i yfed llefrith,' 'Dysgu moch i yfed maidd;' ac er mai mochyn yw mochyn,' ac y 'Gŵyr pob mochyn b'le mae ei gafn,' ac 'Na fyn mochyn ond ei ddigon,' Na ddal unpeth ond ei lon'd,' gallwn ymgysuro 'Nad oes neb

ry hen i ddysgu, ac 'Na ddysg neb yn iou;' ac yn wir, 'Mae dysg yn dda i bobpeth;' 'Ofer dal canwyll i gyfarwydd,' ac afraid anesgusodol yw 'Goleuo canwyll i chwynu,' a ffolineb o'r mwyaf yw 'Ceisio dal y gwynt a saethu'r lleuad,' neu, ynte, fel y gwnaeth gwŷr Llandybie gynt—

'I geisio ioco brain,
A dala chwain mewn rhwyde.'

Cydnabyddir dyn yn *smart* os gall 'Achub ŵy poeth o dân heb losgi ei fysedd;' ond ychydig o gydymdeimlad sydd â'r sawl a 'Losgo ei fysedd yn nghawl dyn arall,' ac ychydig o barch sydd i'r dyn fydd 'A bys yn mhob brywes,' neu, 'Fel milgi â'i drwyn yn mhob drws,' ac yn 'Meindio bysnes pawb ond ei fysnes ei hun.' Ac ond odid na ddodiff hwnw 'Ei droed ynddi,' cyn hir. Ond llawer llai o barch sydd i'r hwn fyddo'n cynnyg 'Bwyta bwyd o ben dyn arall,' neu 'Fyn'd â'i fara o'i ben,' a 'Myn'd â'i dy oddiuwch ei ben. Gwell genyf nâ hyny fyddai 'Bwyta llygoden cyn ei dal,' neu, ynte, fod 'Mor dlawd â llygoden eglwys,' ac yn 'Marchogaeth cel marw' o'r bore hyd yr hwyr, 'Heb geiniog i groesi eu gilydd;' ond, beth ddywedwch am 'Wisgo 'sgidiau dyn marw i achub ei sanau,' ac nas gallai fyned i unman heb fod â 'Gwynt (arogl) yr inc ar ei ddillad.' 'Hael glwth ar dorth gwr arall,' sydd wirionedd profedig, a 'Hawdda' hael yw hael addaw;' a llawn mor wir â hyny yw 'Mynych addaw, mynych annghof,' oblegyd 'Hawddach addaw nâ chyflawnu o lawer iawn o ffordd, a 'Hawddach gweyd nâ gnweyd' yn wastad. 'Hawdd gweyd mynydd, ond anhawdd myn'd drosto,' 'Hawdd pobpeth cyn ei dreio'—'Easier to think than to do;' eithi hawdd gan rai yw gwneyd 'Mynydd o dwmpath pridd gwadd,' a 'Chodi cestyll yn y gwynt' (yn yr awyr) dim ond cael ysgol fenthyg, gan ddangos "Mwy o swn nag o sylwedd.' Gwaith afreidiol yw 'Cyrchu dw'r dros afon,' a llawn mor afreidiol â hyny yw 'Lladd chwanen â gordd.' Y mae yn gofyn llaw fedrus a llygad craffus i 'Dynu baw o lygad chwanen,' a champ ddiesgus yw i ddyn allu "Hollti blew;' ond 'Hollti blewyn yn bedwar' sydd gampwaith heb ei gyflawnu yn yr oes hon hyd yn hyn, yn neillduol pe cynnygid gwneyd hyny â 'Bwyell bren.' 'P'un sy ffola,' debygech chwi, y sawl sy'n 'Hela'r plwy' i ddal llygoden,' neu y dyn a fo'n 'Galw 'nghyd y plwy' i glywed y gwcw?' "Waeth baw nâ bwdel,' ddywedaf fi. 'Man y man, Shanco,' ebai Shân, 'Waeth p'un yw p'un'—'Ni waeth trwy fwlch nâ thros gamfa os eir i'r uncae.' 'Baw fydd baw, gwnewch a fynoch ag ef.' 'Peidiwch ffusto baw, waeth arnoch chi fydd y tasgion.' 'Ni ddaw du byth yn wyn mewn dwfr brwnt,' ac y 'Mae yr hyn a ddywed pawb yn sier o fod yn wir.' 'Calla'i ben, caued ei geg.' 'Yr un gân sy gan y gwcw,' a 'Diwedd pob cân baledwr yw y geiniog;' ond y mae ambell un 'Mor drychwantus

115 â llyffan' am y pridd: ' 'Fe fyn y gân a'r geiniog,' a chwareu teg, ni fyddai hyny 'Ond gormod o ganfas am rot.' 'Eled y byd lle'r elo,' a phe caffai y cwbl, ni fyddai ond 'Megys syfien yn mola hwch.' Y mae llawer un, ysywaeth, wedi bod mor ffol ag 'Ymladd â'i fara a chaws,' a 'Sefyll yn ngoleu ei hunan,' ac 120 'Wedi tori ffon i guro'i hunan,' lawer tro, 'Wedi tori ei law i achub ei fys,' 'Tori'i goes i achub ei esgid,' ac, yn wir, 'Wedi llosgi ei le,' fel mae gwaethaf y modd; ac wedi 'Tynu hoel o'i 125 bedol ei hunan, 'Wedi dodi ei fys rhwng y tewyn a'r tân,' nes gwingo'n dost mewn canlyniad. Y mae fod dyn 'Wedi tomi yn ei nyth,' yn ddrwg; ond y mae 'Dodi draen yn ei nyth' yn waeth. Gwaeth fyth fod neb mor ffol a 'Thaenu gwely drain iddo ei hun,' ond 'Y mae parch pob un yn sefyll ar ei law ei hun.'

(I'w barhau.)

ADGOFION CYMRU FU: PENNODAU ANNGHOFIEDIG.

Pennod XII.—Owen Evans, Cefncoed, a'r Botel Gwenwyn.

Tua diwedd y *forties* a dechreu y *fifties*, onido, yr oedd y twrw Mormonol ar ei uchaf; ac un o'r apostolion mwyaf gweithgar oedd y Cadben Jones, brawd y Parch. John Jones, Llangollen. Clywodd y Parch. Owen Evans am y Cadben, ei fod yn dywedyd pethau rhyfedd i lawr tua Merthyr, a phenderfynodd fyned i gyfarfod ag ef y cyfleusdra cyntaf a gaffai. Wedi cael allan amser y cyfarfod, cychwynodd ar ei daith. Talodd ymweliad yn gyntaf a'r fferyllydd, Mr. Thomas Stephens, dybiwn, ac wedi ychydig ymgomio ar y mater, cafodd ddwy botel fach i fyned gydag ef yn ei boced i'r cwrdd. Cyrhaeddwyd y cyfarfod, gwrandawyd ar yr areithydd yn amyneddgar; ac er syndod i lawer o'r presennolion, ac yr oeddynt yn llu mawr iawn, clywyd ef yn adrodd y pethau rhyfedd oedd o fewn gallu "Seintiau y Dyddiau Diweddaf" i'w cyflawnu. Adroddodd yr adnodau yn Efengyl Marc xvi. 17, 18*:—"A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant: yn fy enw I y bwriant allan gythreuliaid; ac a thafodau newyddion y llefarant; seirff a godant ymaith; ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach;" ac haerodd y gallai Seintiau y Dyddiau Diweddaf wneuthur y pethau hyn oll.

Wedi iddo orphen, cafodd Mr. Evans gyfleusdra yn ngwydd y dorf i ofyn a allai efe ei hunan wneuthur y pethau yr haerai eu bod o fewn gallu y Saint. Atebodd y gallai. A allai efe yfed gwenwyn marwol a

---

* Mae'r adnodau yn Marc xvi. 9—20 o awdurdod amheus. Nid ydynt yn y ddwy ysgrif hynaf sydd ar glawr, a thebyg mai dyfais awdwr diweddar ydynt.

dianc heb niwed? Atebodd etto y gallai. Ar hyn tynodd Mr. Evans botel fach allan o'i boced, ac estynodd hi i'r Cadben, yr hwn, wedi darllen y *label* arni—"*Prussic Acid*: *Poison*"—a ddywedodd mai y diafol oedd wedi gosod yn nghalon Mr. Evans i'w demtio i'r fath brofedigaeth waradwyddus. Na, nid yfai efe o'r botel; na wnai, yn sicr, ddim o'r fath beth. "Yfwch, yfwch," meddai'r dorf, "yr ydych wedi addaw yfed." Estynodd y Cadben hirben y botel yn ol i Mr. Evans. Cymmerodd yntau hi yn ei law, trodd ei wyneb at y dorf, a dywedodd yn gymmaint a bod y Cadben yn ofni yfed cynnwysiad y botel, yr yfai efe ef ei hunan: nad oedd ynddi ddim ond *dwfr glân!* Ar hyny yr oedd yno chwerthin iachus a gwawdio uchel—fod ar y Cadben, ar ol ei holl ymffrost, ofn yfed *dwfr glân!* Rhag dygwydd y buasai'r Cadben yn lled-dybio cynnwysiad y botel, yr oedd Mr Evans wedi dyfod a'r *genuine article—Prussic Acid*—gydag ef yn y botel arall. Ond nid oedd dim o'i heisieu.

P. P.

CYFARFODYDD CHWARTEROL Y NADOLIG.

Cynnaliwyd y cyfarfodydd uchod yn Mrondeifi, Llanbedr, ar y 26ain a'r 27ain o Ragfyr, ac yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresennol:—T. Thomas, Green Park; J. Davies, Alltplaca; W. James, B.A., a W. J. Davies, Llandyssul; J H. Davies, Cefncoedcymmer; Proff. Moore, B.A., Caerfyrddin; D. Evans, Cribin; D. Ifor Davies, Pentre, Cwm Rhondda; W. J. Phillips, Nottais; J. Thomas, Aberdar; E. Jenkins, Capelygroes; R. C. Jones, E. Evans (A.), J. W. Evans (M. C.), Llanbedr; ac hefyd y myfyrwyr canlynol:—T. A. Thomas, Gwilym Evans, James Jenkins, T J. Jenkins, Lewis Williams, a W. S. Jones.

Dechreuwyd y cyfarfod nos Fercher am 6. Awd drwy y rhanau arweiniol gan Mr. T. A. Thomas, myfyriwr, a phregethwyd gan y Parchn. J. Thomas, Aberdar, a W. James, B.A., Llandyssul—y naill oddiar Ioan xvi. 12, a'r llall oddiar Marc xiv. 8, a theimlwn yn dra sicr fod y gynnulleidfa luosog yn teimlo mai da oedd bod yno i wrando ar y gwirioneddau mawrion a phwysig oeddynt yn cael eu traddodi i'w clywedigaeth mewn dull mor fedrus ac mewn modd mor nerthol ac effeithiol.

Am 10 o'r gloch dydd Iau, dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. D. Evans, Cribin, ac ar ol hyn traddodwyd pregeth ardderchog gan y Parch. J. H. Davies, Cefncoedcymmer, y pregethwr appwyntiedig. Ni cheisiwn roddi crynodeb o'r bregeth rhag gwneyd cam a hi, ond rhoddwn awgrym caredig fel hyn:—Gan nad yw Golygydd Yr Ymofynydd a'r pregethwr yn byw'n mhell oddiwrth eu gilydd, ac yn dygwydd bod ar delerau da, gallent hwy cydrhyngddynt roddi crynodeb cywir o honi yn y misolyn hwnw, os gwelant yn dda; a gallant gymmeryd ein gair fod yna bethau llai eu gwerth wedi ymddangos yn mhlith y pethau gwerthfawr a ymddangosant ar ei dudalenau o fis i fis. Ceir testyn Mr. Davies yn Matthew xix. 8. Yn nesaf, traddodwyd pregeth alluog

yn Saesneg gan y Proff. Moore, B.A., Coleg Caerfyrddin, oddiar 2 Cor. v. 17, a thrueni na fuasai rhagor o'r gwrandawyr yn gallu ei gwerthfawrogi.

Awd drwy ranau defosiynol gwasanaeth y prydnawn gan y Parch. J. Davies, Alltplaca, a phregethwyd yn Saesneg gan y Parch. W. J. Phillips, Nottais, oddiar Ephes. v. 17. Nid oeddem heb ofni ar y cyntaf ein bod yn gwneyd camsyniad wrth gael pregeth Saesneg arall, ond pan welsom y gwrandawiad astud oedd yn cael ei roddi, yn enwedig gan y bobl ieuainc, a'r pregethwr yn trin ei bwnc mor dda, credem fod y drefn yn un ddoeth. Canlynwyd Mr. Phillips gan y Parch. W. J. Davies, Llandyssul, yn Gymraeg Cododd ei destyn yn Matthew i. 21. Gallwn ddywedyd am Mr. Davies ei fod yn ei hwyliau goreu, a dywedai rhai ei fod wedi rhagori arno ei hunan y tro hwn.

Am 6 yn yr hwyr, darllenwyd a gweddiwyd gan Mr. Lewis Williams, myfyriwr, a phregethwyd gan y Parch. D. Ifor Davies, Pentre, Cwm Rhondda. Yr oedd ei bregeth yn sylfaenedig ar Salm lxvi. 10. Yr oedd Mr. Davies yn bregethwr dyeithr i'r rhan fwyaf o'r gwrandawyr, ac ar y pryd yn dyoddef oddiwrth anwyd mor drwm, fel yr ofnem unwaith na fedrai bregethu o gwbl, ond llwyddodd i fyned drwy ei waith yn ardderchog, a theimlwn yn sicr fod y bregeth benigamp a draddodwyd ganddo wedi creu awydd yn y gwrandawyr i'w glywed yn fuan etto, ac mae yn drueni na fyddai'n gallu rhoddi ei bresennoldeb a'i wasanaeth yn amlach yn ein cyrddau. Canlynwyd ef gan y Parch. J. Davies, Alltplaca, a chododd ei destyn yn Titus ii. 11—13, ac yr oedd ei bregeth dda yn ddiweddglo pwrpasol iawn i gyfres o oedfaon gwerthfawr.

Os yw cynnulliadau lluosog, nifer mawr o bregethwyr, a phregethau, a'r rhai hyny yn bregethau da, yn arwyddion diamheuol o gyrddau llwyddiannus, yr oedd y cyrddau diweddaf yn Mrondeifi yn llwyddiant perffaith, a gobeithid eu bod felly mewn gwirionedd, ac nid mewn ymddangosiad yn unig.

Penderfynwyd fod Cwrdd y Pasc i fod yn Nghapelybryn, a'r Parch. J. Thomas, Aberdar, i bregethu y bregeth.

C.

NODYNAU GWASGAROG.

DOWLAIS.

Oddiar ymadawiad ein cynweinidog yn Mehefin diweddaf, yr ydym wedi llwyddo i gynnal cyfarfodydd rheolaidd bob Sul hyd yn bresennol, ac wedi cael gwasanaeth rhyw bregethwr am dri Sul o bob pedwar, ac yn absennoldeb pregethwr, dygir yr oedfaon yn mlaen gan ychydig aelodau perthynol i'r capel mewn rhyw ddull a modd. Cynnelir cyfarfodydd ar rai nosweithiau o'r wythnos gan ryw chwech o ferched ieuaiuc ac un bachgen perthynol i'r gynnulleidfa. Y pregethwyr sydd

wedi ymweled amlaf yn ystod yr amser ydyw Mri. T. H. Thomas, J. Jenkins, T. J. Jenkins, ac L. Williams, myfyrwyr yn Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin. Oddiar amser eu hymweliad a ni y mae yr achos wedi adfywio yn hynod—y cynnulliadau wedi lluosogi yn fawr, a'r rhagolygon yn ymddangos yn fwy gobeithiol. Dyledswydd arnom yw gwneyd yn wybyddus i'r Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar, a J. H. Davies, Cefncoed, roddi eu cefnogaeth a'u cynnorthwy i ni yn nydd ein trallod, ac i'r Parch. D. Evans, Cribin, Ceredigion, deithio y pellder hwna i'n gwasanaethu, a hyny, fel y ddau ereill a enwasom, heb gael ond ychydig gydnabyddiaeth am ei drafferth.

Ar ddiwedd y flwyddyn rhanwyd arian banc cynnilo yr Ysgol Sul. Y swm a gasglwyd yn ystod y flwyddyn oedd £28 7s., a'r Sul cyntaf yn y flwyddyn newydd derbyniwyd £1 7s. 6ch. Dengys y ffigyrau hyn fod y cynnydd yn ffafriol.

Dydd Sul, Ionawr y 13eg, cynnaliwyd cyfarfod adrodd tri-misol y plant. Cafwyd cyfarfod dyddorol ac adeiladol iawn : adroddwyd amryw salmau, pennodau, ac emynau, yn Gymraeg a Saesneg ; anrhegwyd y plant â gwahanol lyfrau gwerthfawr, fel cydnabyddiaeth am ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn ; a chafwyd anerchiad rhagorol gan Mr. J. B. S. Jones ar yr Ysgol Sul, a dyledswydd rhieni i anfon eu plant iddi yn gysson. Cael cyfarfod o'r fath yn fuan etto yw dymuniad llawer heblaw

LLIN YN MYGU.

Y MAE UFFERN.

Ateb i Ofyniad yn "Ymofynydd" Rhagfyr.

I annuw y mae annwn,—hir benyd
Dirboenus ddarllenwn ;
'Nol goleu y Beibl gwelwn,
Y dyn byth fydd dan ei bwn.

CLWYDWENFRO.

SATAN.

Dywed y *Christian Herald*, papyr sydd yn caru proffwydo, y bydd peth *pwysig* ["difyr," medd y *Christian Life*,] i gymmeryd lle Nadolig, 1903 ; hyny yw, yn mhen naw mlynedd. "Fe fwrir Satan i lawr o'r awyr." Byddai yn ddyddorol gwybod yn mha le y bydd iddo ddisgyn —pa un ai yn New Zealand neu yn Nghymru. Bydd yn llawenydd i filoedd os try ei godwm yn angeu iddo. Y mae etto waith gan yr Undodwr—i helpu i daenu'r goleuni, a gyru ofergoeliaeth ar ffo.

BRAWDGARWCH.

Peth da ydyw, ond y mae gwahanol ffyrdd i'w ddangos. Nid yw y Dr. Everett Hale yn cytuno a'r Count Tolstoi. Leflu i fyny, ac nid

leflu i lawr, ddylid, meddai Hale. "Fy mrawd ydych chwi," ebe Tolstoi wrth y truan tlawd, "ac felly yr wyf am fyw gyda chwi a bod yn —— aflan." "Fy mrawd ydych chwi," ebe Dr. Hale, "deuwch i fyw gyda mi a byddwch yn lân."

Manion ac Hanesion.

CAPELYGROES.—Ionawr 10, am chwech yn yr hwyr, oedd yr amser pennoddedig i gyflwyno i'r Parch. Thomas Thomas, Green Park, y dysteb o gwpan arian, ac awrlais bychan, tlws, fel arwydd o barch iddo ar ei ymddiswyddiad o fod yn weinidog am 37 mlynedd. Daeth nifer luosog o ewyllyswyr da Mr. Thomas yn nghyd ar yr achlysur, er mor annymunol oedd yr hin o herwydd y tywydd caled. Cariwyd y cyfarfod yn mlaen yn hwylus dros ben. Yn absennoldeb y cadeirydd appwyntiedig, J. H. R. Hughes, Ysw., Neuaddfawr, cymmerodd W. Davies, Ysw., Ffynnonfair, y gadair, *pro tem*; ond ni fu Mr. Hughes yn faith cyn cyrhaedd. Siaradwyd ar yr achlysur i'r pwrpas yn neillduol gan Mri. T. H. R. Hughes, Neuaddfawr; W. Davies, Ffynnonfair; Parchn. R. C. Jones, Llanbedr; J. Davies, Alltyplacca; D. Evans, Cribin; ac E. E. Jenkins, Capelygroes. Cyflwynwyd y dysteb i Mr. Thomas gan Mrs. Jenkins, Mynach Villa, a Mrs. Evans, Caeglas, yn absennoldeb ei mam. Wedi derbyn y rhodd, siaradodd Mr. Thomas yn faith ac yn deimladwy iawn wrth ddiolch am yr anrhydedd oedd wedi gael ganddynt.

PANTDEFAID.—Rhagfyr 28, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y lle uchod er anrhegu y Parch. Thomas Thomas â thysteb, mewn cydnabyddiaeth o'i wasanaeth fel gweinidog am saith mlynedd a deugain. Yr oedd y lle yn orlawn. Cymmerwyd y gadair gan y Parch. W. James, B.A., hen ysgolhaig i Mr. Thomas, a chydweithiwr ag ef am lawer o flynyddau yn y weinidogaeth Undodaidd. Gwnaeth y cadeirydd, yn ei sylwadau agoriadol, gyfeiriad at y gwasanaeth gwerthfawr ag oedd Mr. Thomas wedi wneuthur fel gweinidog ac ysgolfeistr, yn nghyd a'i gyssylltiadau ereill yn ystod y tymhor hirfaith hwn. Gobeithiai y cawsai Mr. Thomas fwynhau y gorphwysdra ag ydoedd mor wirioneddol yn deilyngu am lawer o flynyddau etto i ddyfod. Yr oedd y dysteb yn gynnwysedig o berdoneg ddestlus o waith y Mri. Broadwood, Llundain; hefyd, ddarlun o hono ei hun mewn olew-liwiau, o waith Mr. Jones, School of Art, Caerfyrddin, yn nghyd ag annerchiad addurnedig. Cyflwynwyd yr anrhegion, ar ran y tanysgrifwyr, gan ddwy foneddiges o'r gynnulleidfa, sef Mrs. Jenkins, Gwarllwynoidos, a Mrs. Evans, Gyfeile. Gwnaeth Mr. J. Arthur Thomas ychydig o sylwadau pwrpasol cyn darllen yr annerchiad. Gwnaeth Mr. Thomas ateb mewn iaith ag oedd lawn o deimladau dwfn. Yr oedd yn ymddangos ei fod bron cael ei lethu gan ei deimladau, fel yr oedd yn anhawdd iddo ddatgan ei ddiolchgarwch gwresog am y gydnabyddiaeth ddymunol hon ar ran ei gyfeillion. Gwnaeth y Parch. J. Davies, Alltplaca, mewn araeth hyawdl, gyfeiriad at eu cydnabyddiaeth o'u gilydd am dymhor o ddeugain mlynedd. Annerchwyd y cyfarfod hefyd gan Mr. Samuel Evans, Penant, a Mr. Cynghorwr Davies, Camnantfach. Yn ystod y cyfarfod, canodd Mr. Colby Evans, Caerfyrddin; T. A. Thomas, Miss Thomas, Llandyssul, a chor Pantdefaid. Chwareuwyd yn feistrolaidd ar y berdoneg gan Miss Getta Thomas, Misses Bessie a Tyddie James, Miss Bessie Evans, ac ereill. Cyfeiliwyd gan Jones, Gellifaharen.

ABERDAR. — Ionawn 10, cyflwynwyd tysteb odidog i Mr. Joseph Jenkins a'i briod gan eu cyfeillion yn yr Hen-Dy-Cwrdd. Mae Mr. Jenkins a'i deulu wedi symmud i Glydach Vale, Dyffryn Rhondda, ac y mae colled un lle yn ennill i'r lle arall. Siaradwyd gan luaws o gyfeillion, a chyflwynwyd y dysteb gan Mrs. Mary Davies. O herwydd anallu i fod yn bresennol, anfonodd Mr. Jenkin Llewelyn, diacon hynaf yr Hen-Dy Cwrdd, a Richard Bedlington, Ysw., Gadlys Uchaf, lythyron eglurhaol caredig.

LLANDYSSUL.—Dydd Nadolig, cynnaliodd eglwys y Graig ei Gwyl De Flynyddol yn Neuadd Gyhoeddus y Porth Hotel, pryd y gwnaeth aelodau'r Ysgol Sul, yn nghyd ag amryw o gyfeillion yr achos, gyfranogi o'r wledd ardderchog oedd wedi

ei darparu ar eu cyfer. Yn yr hwyr, cynnaliwyd cyfarfod adloniadol, dan lywyddiaeth y Parch. W. James, B.A., pryd y cymmerwyd rhan ynddo gan gor plant y Graig, dan arweiniad Mr. David Jones, Watchmaker, a chor meibion y Llwyn, dan arweiniad Mr. J. R. Thomas. Perfformwyd yn hynod feistrolaidd gan barti o'r Llwyn a pharti o Landyssul. Cymmerwyd rhan yn y cyfarfod gan Mr. Gwilym Evans, Oxford; Mr. Samuel Lewis, Pontshan, ac amryw ereill. Terfynwyd cyfarfod llwyddiannus trwy ganu Hen Wlad fy Nhadau.

Da genym gael ar ddeall fod Mr. Evans, Porth Hotel, a Mr. Thomas, Fronwen, wedi eu hethol ar ben y rhestr i gynnrychioli rhan ddeheuol Plwyf Llandyssul ar y Bwrdd Gwarcheidwaid yn Nghastellnewydd, ac y mae y blaenaf wedi ei ethol yn is-gadeirydd. Hefyd, fod Mr. Evans, y Siop, ar ben y rhestr dros ddeheu Llandyssul, a Mr. Jenkins, Gwarllwynoidos, ar ben y rhestr dros y gogledd ar y Cynghor Plwyfol. Etholwyd Mr. Evans yn gadeirydd, a Mr. Jenkins yn is-gadeirydd.

Y Parch. Owen Evans.—Ceir amryw o bregethau Mr. Owen Evans yn argraffedig yn Yr Ymofynydd, a cheir nn, y bregeth a draddododd yn y Cwrdd Chwarterol yn y Wig, yn yr un rhifyn ag y mae hanes ei farwolaeth, sef rhifyn Chwefror, 1865.

Mae cynnulleidfa Cae'ronen yn ddiweddar wedi adeiladu ty capel eang a chyfleus, a'r llofft yn un ystafell fawr at wasanaeth yr Ysgol Sul, &c. Ar yr 8fed o Ionawr, rhoddodd boneddigesau y gynnulleidfa wledd o de a bara brith i blant yr Ysgol Sul yn yr ystafell hon, a phawb yn llawenhau fod ganddynt bellach le mor ddymunol at eu gwasanaeth; ond nid yw cyfleusderau fel hyn yn d'od heb eu bod yn golygu traul a thrafferth i rywrai. Yn yr hwyr, yr un dydd, cafwyd cwrdd llenyddol ardderchog, y canu a'r adrodd yn dangos llawer o ôl llafur a hunan-ymwadiad ar ran y plant a'r athrawon, ac yn enwedig ar ran D. Davies, blaenor y gân.

Priodas. — Rhagfyr 28, yn Nghapelgroes, gerbron y cofrestrydd, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. D. Evans, Cribyn, unwyd Mr. Evan Jones, Ffynnonlas, Llanwnen, â Miss Mary Davies, Cledlyn Park, Cwrtnewydd, mewn glân briodas.

Marwgofion.

Hydref 19, yn 92 oed, bu farw Margaret James, Maesymeillion, Llandyssul, a chladdwyd hi yn Mhantdefaid y dydd Llun canlynol. Pregethodd Mr. T. T. ar yr achlysur. Ni chlywais erioed ond yr hyn oedd dda am yr hen wraig hon, ond tebyg nad oedd yn berffaith, fel pawb ereill. Cofied ei phlant yn barchus am dani; oblegyd hyd y gallodd, hi a wnaeth ei goreu drostynt.

Tachwedd 12, yn dra annysgwyliadwy, yn 49 oed, Annie, anwyl briod Evan Jones, Yswain, Tyssul Castle, Llandyssul. Cymmerwyd hi yn glaf y dydd Sadwrn cyn hyny. Ni feddyliodd neb fod ei diwedd mor agos, ond parhau i waethygu yn gyflym a wnaeth, ac ni chafodd ennyd o orphwysfa nes daeth ei hymddattodiad. Nis gallai gwybodaeth meddygon, na gofal a thynerwch priod a phlant, ohirio dyfodiad y wys o lys Gosodwr marwolaeth, yn gystal a Rhoddwr bywyd. Collodd ei phriod a'i dwy ferch a'i hunig chwaer, yn nghyd a llawer o gyfeillion, un y bydd ei choffadwriaeth yn anwyl ganddynt, a glaswellt a blodeu ei bedd eu gwlychu yn aml â dagrau hiraeth, nes myned o honynt ar ei hol "drwy'r geledig gul adwy" i'r byd y tu draw, lle "sych Duw ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt, a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch na llefain, na phoen ni bydd mwyach." Claddwyd Mrs. Jones yn nghladdfa'r teulu a'r tylwyth yn Mhantdefaid y dydd Sadwrn canlynol i'w marwolaeth. Yn y ty gartref, darllenodd a gweddiodd y Parch. E. P. Jones, curad, a phregethodd y Parch. Mr. Jenkins, periglor y plwyf. Cyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn nghapel Pantdefaid, ac ar lan y bedd gan gyn-weinidog y lle, Mr. T. T. Er mewn amgylchiadau annybynol a gwir gysurus, etto, ystyriai Mrs. Jones nad oedd neb yn cael ei anfon i'r byd i dreulio ei amser yn segur, ac felly bu hi yn ddiwyd yn nghyflawniad dyledswyddau y cylch yr oedd yn

troi ynddo, ac yn wir ofalus am ei thy a'i theulu. Yn ddiau, y mae ei lle yn wag iawn. Yr oedd yr ymadawedig yn henaf o blant y diweddar Mr. a Mrs. Thomas, Llanfair, Llandyssul. Enwau y plant ereill oeddynt David (Captain Thomas), Mary, a John, y rhai ydynt wedi marw. Y mae Jane yn fyw, sef Mrs. Jones, Clydeg. Teuluoedd parchus a dylanwadol yn y plwyf ac mewn cymdeithas oedd hen deuluoedd Llanfair: pybyr fel Rhyddfrydwyr, a llawn cydymdeimlad a charedigrwydd fel cyfoethogion a thirfeddiannwyr. Byr-hoedlog oeddynt, gydag ychydig eithriadau; ond bu eu gwasanaeth, er dros amser byr, etto yn fawr a gwerthfawr Coffa parchus am danynt. Codasant iddynt eu hunain gof-golofnau mwy parhaus na "cherryg bedd na chreig byd."

Tachwedd 24, yn 73 oed, bu farw Jane Parry, Tyrhos, Gwarllwynoidos, Llandyssul. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol yn Mhantdefaid. Gweinyddodd T.T., y cyn-weinidog, ar yr achlysur.

Rhagfyr 6, yn 76 oed, Elizabeth, anwyl briod Mr. Thomas Thomas, Cnwc, Llanbyther, ac hebryngwyd hi i'w bedd yn nghladdfa Capelgroes y dydd Llun canlynol. Pregethodd Mr. T.T. yn y capel, a chynnorthwywyd yn y rhelyw o'r gwasanaeth gan y Parch. E. E. Jenkins, gweinidog y lle, a'r Parch. Mr. Jones, Rhydybont (Annybynwr). Heblaw priod oedranus, gadawodd yr ymadawedig wyth o blant yn fyw ar ei hol, oll yn briod—tri mab a phum' merch, ac hefyd lawer o wyrion, ac amryw or-wyrion. Yr oedd yn fam i 10 o blant, ond yr oedd dwy o'r merched wedi ei blaenu, ac wedi cael eu claddu yn mynwent Llanbedr. Ni ddychwel hi, ond nyni a awn ar ei hol.

Rhagfyr 6, yn 23 oed, James Rock, Craigtrebanos. Fel yr oedd yr ymadawedig yn ymddyddan â hen wraig o'r gymmydogaeth, dywedodd wrthi, "Dyna wahaniaeth oedran sydd rhyngom, modryb." "Ië," meddai yr hen wraig. "Ond, efallai y byddaf fi wedi myn'd i ffordd yr holl ddaear o'ch blaen chwi etto," meddai yntau. "'Falle hyny, wir," meddai yr wraig; ac felly y bu. Bu farw yn mhen ychydig ddiwrnodau wedi hyny o'r *inflamation*. Dyoddefodd boen dirfawr, ond byr. Siarai, bob amser, gyda theimlad, fel un oedd yn ystyried "breuder einioes brodyr anian." Gadawodd weddw (merch y diweddar dad Isaac Hopkin, hen ddiacon parchus yn eglwys Gellionen) a dau blentyn i alaru ar for garw bywyd. Y dydd Sadwrn canlynol, daeth tyrfa anarferol o luosog yn nghyd, yn berthynasau a chyfeillion, o bell ac agos, i dalu'r gymmwynas olaf. Claddwyd ei ran farwol yn mynwent Eglwys All Saints, Pontardawe. Hyderwn y gwna Arglwydd y lluoedd estyn ei law gynnorthwyol tuag at y weddw a'r amddifaid bychain.

O! Arglwydd da, ein gweddi yw,—
Bydd dyner wrth y weddw;
A gwna ni bawb, sydd etto'n fyw,
Yn barod erbyn marw.

EMRYS.

Rhagfyr 20, yn 84 mlwydd oed, Jenkin Jenkins, Llechwedd - deri-uchaf, Plwyf Llanwnen. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Eglwys y Plwyf, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty gan J. Davies, Alltyplacca, a D. Evans, Cribin. Yr oedd yr angladd y mwyaf a welwyd yn y gymmydogaeth er's blynyddoedd lawer. Yr oedd hyny yn amlygiad o'r parch a deimlid tuag at yr ymadawedig ar gyfrif ei rinweddau amrywiol. Gwr cariadus, tad tyner a gofalus, a chymmydog haelionus a thangnefeddus. Hyd y medrai, cynnorthwyai bawb yn mhob amgylchiad cyfyng. Bydded i'w briod oedranus a'i blant i gofio'n gynhes am ei ragoriaethau, a'u hefelychu, fel y gallont, ar sail dda, obeithio cael ail-gyfarfod yn y wlad lle nad oes ymadael mwy.

Rhagfyr 29, John, anwyl faban Mr. a Mrs. Lloyd, 7, Clive Street, Aberdar, yn ddeng mis oed. Gwasanaethwyd gan R.J.J.

"Ni ddaeth y teg flodeuyn hyn
A ga'dd mor syn ei symmud;
Ond prin i ddangos pa mor hardd
Yw blodeu gardd y bywyd."

Ionawr 6, Philip Philips, Felinban, Llanwnen, yn 78 oed. ar ol cystudd ac henaint. Hen wr wedi treulio ei fywyd yn heddychlawn a diddichell iawn. Gadawodd bedwar o blant mewn oed i alaru ar ei ol. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Capelygroes, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, a chynnorthwywyd gan y Parch. J. Davies, Alltplaca.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.